GYMRAEG AR Y RHENG FLAEN:

TAITH MYFYRWYR PARAFEDDYGOL SY'N ASTUDIO'N GYMRAEG

Mae astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol i hyrwyddo cydraddoldeb ieithyddol, hunaniaeth ddiwylliannol, a chymhwysedd proffesiynol o fewn system gofal iechyd Cymru. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sicrhau'r hawl i dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg ac yn gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys prifysgolion, i gefnogi'r iaith yn weithredol. I fyfyrwyr Gwyddor Parafeddygol, mae dysgu a gweithio trwy'r Gymraeg nid yn unig yn bodloni'r rhwymedigaeth hon, ond hefyd yn eu paratoi i ddarparu gofal sy'n sensitif yn ddiwylliannol ac yn briodol yn ieithyddol.

Mae ymchwil yn dangos bod cleifion sy'n derbyn gofal yn eu hiaith gyntaf yn profi gwell dealltwriaeth, mwy o foddhad, a chanlyniadau clinigol gwell—yn enwedig mewn sefyllfaoedd brys a phwysig (Roberts et al., 2020; Ngo-Metzger et al., 2007). I fyfyrwyr, mae addysg Gymraeg yn cefnogi hunaniaeth bersonol, yn codi hyder mewn cyfathrebu clinigol, ac yn gwella cyfleoedd cyflogaeth mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Ym Mhrifysgol Abertawe, mae astudio trwy'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n weithredol drwy bartneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae myfyrwyr Gwyddor Parafeddygol yn elwa ar adnoddau dwyieithog, sesiynau addysgu pwrpasol, a chefnogaeth gadarn gan staff sy'n gwerthfawrogi rôl iaith a diwylliant mewn gofal iechyd.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

"Nid dim ond budd i'r unigolyn yw astudio trwy'r Gymraeg—mae'n cryfhau ein cymunedau ac yn sicrhau gofal gwell, mwy personol yn y gwasanaethau rydym i gyd yn dibynnu arnynt."

Swansea University Prifysgol Abertawe

CASGLU DATA A CHYNNWYS CYFRANOGWYR

Pwy a Gwahoddwyd

Gwahoddwyd myfyrwyr Gwyddor Parafeddygol o'r ddwy raglen - mynediad uniongyrchol a'r BSc (Anrh) ar gyfer Technegwyr Meddygol Brys (TMB) i gymryd rhan mewn arolwg.

Dull Casglu Data

Dosbarthwyd yr arolwg trwy arweinwyr academaidd a rhwydweithiau myfyrwyr.
Dyluniwyd holiadur electronig syml a rennir drwy god QR.

Nod yr Arolwg

Archwilio profiadau myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg - gan gynnwys dewis iaith, buddion, heriau, ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau.

Cynnwys yr Holiadur

Roedd sylw penodol i:

- Fathau o adnoddau dysgu
- Cefnogaeth addysgol drwy'r Gymraeg
- Profiadau clinigol ac academaidd

Mae data ansoddol yn rhoi llais i fyfyrwyr drwy gofnodi eu profiadau byw a'u safbwyntiau yn fanwl, gan alluogi arferion addysgol mwy ymatebol a chynhwysol (Braun & Clarke, 2006; Merriam & Tisdell, 2016).

CANFYDDIADAU

Archwiliodd yr astudiaeth safbwyntiau myfyrwyr parafeddygol sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ynghylch defnyddio'r Gymraeg mewn gofal brys. Roedd y meysydd allweddol yn cynnwys pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg ar y rheng flaen, sut y gall myfyrwyr Cymraeg wella profiad y claf, a'r rhwystrau a wynebir wrth ddefnyddio'r iaith yn ymarferol. Bu'r arolwg hefyd yn ystyried buddion personol a phroffesiynol astudio yn Gymraeg, awgrymiadau ar gyfer gwella cefnogaeth ac adnoddau dwyieithog, a dylanwad cyffredinol defnyddio'r Gymraeg ar hyder clinigol a safon y gofal a ddarperir.

Derbyniwyd 25 o ymatebion ar draws y ddwy raglen, gyda rhai o'r rheini heb fod yn siaradwyr Cymraeg rhugl, yn tynnu sylw at bwysigrwydd yr iaith Gymraeg i'n myfyrwyr.

"Darparu tiwtoriaid a meintoriaid Cymraeg, cynhyrchu adnoddau dysgu dwyieithog, sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ymarferol ar lleoliadau, a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg ymhlith timau gofal iechyd"
Rhif cyfranogwr 6

"Mae parafeddygon sy'n siarad Cymraeg yn gwella profiad y claf trwy ddarparu gofal mwy diogel, mwy personol a diwylliannol barchus, tra hefyd yn helpu i leihau rhywstau iath ac anghydraddoldebau iechyd"
Rhif cyfranogwr. 11

"Meddwl y byd am y cyfle!! Mae'n golygu llawer i mi, gan bod cadw'r iaith yn fyw yn bwysig iawn i mi"
Rhif cyfranogwr. 20

CASGLIAD

Dangosodd ein harolwg fod myfyrwyr Gwyddor Parafeddygol ym Mhrifysgol Abertawe yn gwerthfawrogi'r cyfle i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ystyried hyn yn hanfodol ar gyfer darparu gofal diwylliannol sensitif sy'n canolbwyntio ar y claf. Mewn ymateb i hyn, mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at yr angen am fwy o adnoddau dwyieithog, mwy o gefnogaeth weladwy mewn lleoliadau clinigol, a chyfleoedd strwythuredig i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ymarfer. Mae cryfhau addysg Gymraeg ym maes Gwyddor Parafeddygol yn cynnig y potensial i wella cyfathrebu â chleifion, lleihau rhwystrau ieithyddol mewn gofal brys, a chyfrannu at ddarpariaeth gofal iechyd fwy cynhwysol ac effeithiol ledled Cymru.

Anneka Bell
Darlithydd Gwyddor Parafeddygol
anneka.bell@swansea.ac.uk

CYFEIRIADAU

Sganiwch y cod QR i gael mynediad at y cyfeiriadau.